

# Polisi – Adleoli a Thramor

<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad Cymeradwyo</b>	<b>27/04/2013</b>
<b>Dyddiad Rhoi ar Waith</b>	<b>27/04/2013</b>
<b>Perchennog</b>	<b>MK/HM</b>
<b>Dyddiad Adolygu</b>	<b>31/03/23</b>

# Polisi – Adleoli a Thramor

## Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.0	2013	Cyngor Llawn	Polisi Newydd
f2.0	25.04.18	Andrea Malam	Ail-fformatio
F2.1	20.07.22	David Kennedy	Ail-fformatio

# Polisi – Adleoli a Thramor

## Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
Categoriâu o ad-daliadau	4
Gwerthu eiddo presennol:	4
Prynu eiddo newydd:	4
Lletya / Lwfans Gwely a Brecwast / Rhentu	4
Treuliau Symud Tŷ o Gartref Presennol i Gartref Newydd neu mewn i Storfa neu Lety Rhent ac yna ymlaen igartref newydd.	5
Lwfans Storio	5
Anfonebau / Taliadau	5
Absenoldeb i Adleoli	6
Cytundeb Cynllun Adleoli	6
Meini Prawf Cymhwys	6
Cymhwyster	7
Ymestyn Cyfnodau Amser	7
Adendwm y Polisi Adleoli	8
9.6. Ad-daliad dros 3 blynedd	9

# Polisi – Adleoli a Thramor

## Cyflwyniad

Ar ôl dechrau gweithio i **Gyngor Sir Ddinbych** fe allai **gweithiwr** fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol penodol os bydd angen iddynt adleoli o'u prif gartref, ac o ganlyniad yn gorfod prynu eiddo newydd ac adleoli i'r ardal.

Mewn achosion lle bydd gweithiwr yn gymwys, bydd CSDd yn rhoi lefel resymol o gymorth ariannol i'r gweithiwr, ac

mewn nifer o achosion ni fydd y swm yma'n talu'r holl gostau a ysgwyddir ond bydd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y gost o adleoli. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu o **ddim mwy na £8000 neu, £7,000 mewn rhai achosion lle nadyw treth stamp yn daladwy ar brynu eiddo** (nid oes angen talu treth stamp ar eiddo o dan £60,000, neu mewn wardiau penodol e.e. Dinbych Uchaf a Henllan, hyd at £150,000).

## Categoriâu o ad-daliadau

### Gwerthu eiddo presennol:

- Ffioedd cyfreithiwr/cyfreithiol a threuliau
- Ffioedd gwerthwyr tai.

### Prynu eiddo newydd:

- Ffioedd cyfreithiwr/cyfreithiol a threuliau

## Lletya / Lwfans Gwely a Brecwast / Rhentu

- At y diben o adleoli, fe delir lwfans i'r gweithiwr tuag at gost llety dros dro, tra'n chwilio am lety parhaol addas.
- Bydd Hyfforddeion Graddedig yn gymwys i gael hyd at £2,000 (mae hyn yn cynnwys dau ymweliad i ddod o hyd ilet) am y 3 mis cyntaf.

## Polisi – Adleoli a Thramor

### Treuliau Symud Tŷ o Gartref Presennol i Gartref Newydd neu mewn i Storfa neu Lety Rhent ac yna ymlaen i gartref newydd.

At y diben o symud dodrefn a chynnwys y cartref o eiddo presennol y gweithiwr a chludo'r rhain i'r cartref newyddhen gartref → cartref newydd neu mewn i storfa ac yna ymlaen i gartref newydd.

h.y. hen gartref → storfa → cartref newydd / hen gartref → rhentu → cartref newydd

- Fe delir treuliau symud tŷ ar yr amod bod 100% ohono'n cael ei ad-dalu.
- Ni all **gweithwyr** sydd yn dymuno symud eu hunain neu'n defnyddio teulu neu ffrindiau i'w helpu i symud dodrefn, gyflwyno hawl am daliad yn y categori hwn oni bai eu bod hyn llogi fan neu gerbyd arall a'r tanwydd a ddefnyddir.

## Lwfans Storio

At y diben o storio dodrefn a chynnwys y cartref pan nad ydi'r **gweithiwr** yn gallu symud yn syth.

- Fe delir treuliau storio ar yr amod bod 100% ohono'n cael ei ad-dalu.
- Ni all **gweithwyr** sydd yn dymuno defnyddio teulu neu ffrindiau i'w helpu i storio dodrefn, gyflwyno hawl am daliad yn y categori hwn.

## Anfonebau / Taliadau

Ym mhob achos bydd y Cyngor yn ad-dalu'r **gweithiwr** am wariant cymwys. Felly, y **gweithiwr** sydd yn gyfrifol amdaliad yn y lle cyntaf.

Rhaid i'r **gweithiwr** gyflwyno prawf o dalu, pob derbynneb, anfoneb a dyfynbrisiau i **Adnoddau Dynol** a fydd yn ceisio cymeradwyaeth i ad-dalu a phrosesu'r hawl unwaith y bydd y ffurflenni awdurdodi a chytuno angenrheidiol wedi cael eullofnodi.

Ni fydd y Cyngor yn gwneud unrhyw daliad yn unol â'r cynllun hwn oni bai fod yna brawf ar bapur i gefnogi'r hawliad.

Gall **gweithwyr** hawlio treuliau rhesymol, cymeradwyedig yn erbyn unrhyw un o'r categorïau a restrir ar yr amod nadyw'r hawl cyfan yn fwy na'r uchafswm sydd wedi'i nodi ym mharagraff 1.2.

## Polisi – Adleoli a Thramor

### Absenoldeb i Adleoli

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y **gweithiwr** angen cynllunio a threfnu'r adleoli. Mewn achosion cymwys, bydd y Cyngor yn caniatáu 2 ddiwrnod o absenoldeb adleoli â thâl er mwyn i'r **gweithiwr** symud.

### Cytundeb Cynllun Adleoli

Rhaid i'r gweithiwr lofnodi cytundeb ysgrifenedig ym mhob achos yn ymrwymo i lynu wrth y Cynllun.

Bydd y cytundeb yn gwasanaethu fel datganiad ysgrifenedig nad yw aelod arall o'r un aelwyd yn hawlio am dreuliau adleoli i ffynhonnell arall.

Bydd y cytundeb hefyd yn gwasanaethu fel ymrwymiad ysgrifenedig gan y Gweithiwr i ad-dalu'r gyfran a gytunir arno i'r Cyngor o gyfanswm yr hawliad, os neu pan na fydd y **gweithiwr** yn aros gyda CSDd o'u dewis ei hun am gyfnod o 36 mis.

Bydd y 36 mis yn dechrau o ddyddiad y penodiad.

Bydd yr ad-daliad i CSDd fel a ganlyn:

0 - 12 mis o wasanaeth	100% o ad-daliad i CSDd
13 - 18 mis o wasanaeth	75% o ad-daliad i CSDd
19 - 24 mis o wasanaeth	50% o ad-daliad i CSDd
25 - 36 mis o wasanaeth	25% o ad-daliad i CSDd

### Meini Prawf Cymhwyso

Mae'r cynllun yn gymwys i weithwyr sydd newydd eu penodi i CSDd yn unol â Thelerau ac Amodau gwasanaeth NJC a JNC

**Gweithwyr** newydd sydd yn cael eu penodi i swyddi/contractau parhaol

## Polisi – Adleoli a Thramor

h.y. nid yw staff dros dro neu staff sydd yn annhebygol o gael eu cyflogi am fwy na 3 blynedd, yn gymwys.

**Gweithwyr** newydd a benodwyd i swyddi sydd wedi cael eu gwerthuso yn Radd 9 neu uwch.

Os yw **gweithiwr** newydd ei b/phenodi yn byw dim mwy na 30 milltir (ar y ffordd) o'i g/chanolfan weithio nid yw o/hiyn gymwys dan y cynllun adleoli.

I fod yn gymwys am daliad o dan unrhyw ran o'r cynllun, rhaid i'r **gweithiwr** sicrhau bod yr eiddo newydd yncael ei brynu o fewn Sir Ddinbych neu o fewn 30 milltir (ar y ffordd) o'i g/chanolfan waith.

Ni fydd unrhyw **weithiwr** sy'n cael eu penodi yn sgil aelod arall o'r cartref yn symud i neu'n agos at y Sir ar gyfer gwaithneu resymau eraill, yn gymwys o dan y cynllun.

Ni fydd y cynllun yn gymwys i weithwyr newydd eu penodi sydd yn prynu

tŷ am y tro cyntaf. Yr unig eithriad ydi pwynt 2.3.

Mae'n rhaid cyflwyno pob hawliad o dan y cynllun adleoli yma o fewn 12 mis i ddyddiad cychwyn gweithio'r gweithiwr.

Os oes pryderon ynghylch perfformiad neu bresenoldeb y gweithiwr o fewn 6 mis cyntaf y gwasanaeth, fe all y rheolwr gadw'r hawl i ymatal neu roi stop ar yr holl daliadau adleoli. Bydd unrhyw daliadau sy'n ddyledus ond yn cael eu gwneudpan / os bydd y penodiad yn cael ei gadarnhau.

## Cymhwyster

Rheolwr Gwasanaeth AD yr Awdurdod fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cymhwyster ar gyfer cynllun.

## Ymestyn Cyfnodau Amser

Os bydd **gweithiwr** yn cael trafferth yn gwerthu neu'n prynu eiddo, bydd estyniad i'r cyfnod amser yn cael ei ystyried. Osydynt yn cael anawsterau, dylai'r **gweithiwr** gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaeth AD a allai ddewis ymestyn y cyfnod gan ystyried amgylchiadau personol y **gweithiwr** a/neu gyflwr y farchnad dai ar amser y cytundeb.

## Polisi – Adleoli a Thramor

Os cytunwyd ar estyniad ar adeg y penodiad, h.y. oedi cyn symud oherwydd ysgol y plant, efallai y gellir cytuno wrthwneud y penodiad bod modd ymestyn y cyfnod 12 mis.

### Adendwm y Polisi Adleoli

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i recriwtio gweithwyr medrus allweddol, yn sgil y diffyg cenedlaethol o weithwyr proffesiynol o'r fath. Bydd rhestr o'r rhain yn cael eu cadw yn adran **Adnoddau Dynol** ac yn cael eu hadolygu'nflynyddol.

Mae pob rhan o'r polisi uchod yn berthnasol, serch hynny fe gydnabyddir y bydd gweithwyr o dramor yn fwy tebygol o rentu llety tra'u bod yn aros yn Sir Ddinbych, a byddant angen cymorth ychwanegol wrth gyrraedd.

I'w cefnogi, mae'r eitemau canlynol yn cael eu hychwanegu i fod yn gymwys **hyd at uchafswm o £7000**

- Recriwtio o Dramor
- Hediadau yn ôl ac ymlaen o gartref
- Llety ar ôl cyrraedd\*
- Llogi car am 1 mis\*\*
- 2 wers yrru (i fod yn hyderus i yrru ym Mhrydain)
- Llety rhent

\*Bydd Sir Ddinbych yn trefnu hyn ar ran y gweithwyr a benodir o dramor oni bai bod ganddynt gysylltiadau yn barod a'u bod yn dewis trefnu'r rhain eu hunain.

\*\* Bydd Sir Ddinbych yn trefnu hyn er mwyn iddynt fynd allan i grwydro'r ardal ac i brynu neu brydlesu cerbyd.

Fel rheol y cyfnod ad-dalu ydi tair blynedd ond fe gydnabyddir y ffaith mai'r disgwyliad yw y bydd gweithwyr newydd odramor yn aros am ddwy flynedd, bydd y canlynol yn berthnasol i'r rhai sydd yn gadael Sir Ddinbych mewn llai na dwy flynedd.

0 - 6 mis o wasanaeth	100% o ad-daliad i CSDd
7 - 12 mis o wasanaeth	75% o ad-daliad i CSDd
13 - 18 mis o wasanaeth	50% o ad-daliad i CSDd



## Polisi – Adleoli a Thramor

0 - 6 mis o wasanaeth	100% o ad-daliad i CSDd
19 - 24 mis o wasanaeth	25% o ad-daliad i CSDd

I gynorthwyo i ddenu gweithwyr medrus allweddol i Sir Ddinbych o fewn y DU bydd yr ychwanegiadau canlynol yn caeleu gwneud i'r polisi **hyd at uchafswm o £6000**, neu mewn achosion **pan na fydd treth stamp** yn daladwy wrth brynu eiddo, **£5,000**.

Cenedlaethol
Prynu llety fel am y tro cyntaf

## Ad-daliad dros 3 blynedd

Bydd yr ad-daliad dros 3 blynedd fel a ganlyn:

0 - 12 mis o wasanaeth	100% o ad-daliad i CSDd
13 -18 mis o wasanaeth	75% o ad-daliad i CSDd
19 -24 mis o wasanaeth	50% o ad-daliad i CSDd
25 -36 mis o wasanaeth	25% o ad-daliad i CSDd